

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala, Tachwedd 6ed 2014

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Maer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothea Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1. Croesawodd Y Maer pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Sharon Evans, Islwyn Pritchard-Jones ac Edith Roberts. Cytunwyd i anfon ein cofion at Sharon Evans a dymuniadau gorau am wellhad llwyr i'w gŵr yn dilyn y ddamwain ffordd. **GWEITHREDU: CLERC**
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 2il, 2014.
5. Nid oedd materion eraill yn codi o gofnodion Hydref nad oedd eisoes ar yr Agenda.
6. Materion y Clerc o gyfarfod Hydref:
 - i. Cyflymder trafniadaeth: adroddwyd nad oes gan Gyngor Gwynedd wrthwynebiad mewn egwyddor i oleuadau yn rhybuddio am gyfyngder cyflymdra. Cytunwyd i ofyn i Adran y Priffyrdd o Gyngor Gwynedd a fyddent yn cytuno i'w lleoli a'u symud pe byddai'r Cyngor Tref yn eu prynu. **GWEITHREDU: CLERC**
 - ii. Goleuadau Nadolig: cytunwyd i ofyn i staff Cyngor Gwynedd osod y goleuadau ar y coed wrth gerflun Tom Ellis yn ogystal ag ar y coed eraill sydd dan sylw. Cytunwyd i ofyn i westy'r Plas Coch am ganiatâd i gael cyflenwad trydan i'r goeden o flaen y gwesty. **GWEITHREDU: CLERC**
 - iii. Coed Nadolig: cytunwyd gyda'r trefniadau archebu sydd mewn llaw.
 - iv. Addurno ffenestri siopau: cytunwyd gyda'r trefniadau sydd mewn llaw. Mynegwyd diolch i'r Pennaeth am ganiatáu i ddisgyblion o Ysgol y Berwyn feirniadu'r ffenestri. Cytunodd y Maer i gyflwyno gwobrwyon cystadleuaeth y plant cynradd am 7.00pm yng Nghanolfan Bro Tegid yn ystod y Noson Siopa Hwyr.
 - v. Lloches bws: cytunwyd i barhau i bwysu ar Gyngor Gwynedd ac Adran y Cefnffyrdd am ddatrysiad i ganfod safle ar gyfer lloches bws. **GWEITHREDU: CLERC**
 - vi. Stondinau beic: mae'r Cyngorydd Dilwyn Morgan wedi trefnu i Sustrans ymweld â'r dref i ganfod lleoliad addas ar gyfer stondinau beic; disgwylir prisiau.
 - vii. Y wefan: edrychwyd ar safle Cyngor Tref Y Bala ar wefan Cyngorau Penllyn a mynegwyd bodlonrwydd gyda'r cynnwys.
 - viii. Diogelwch wrth Ysgol Bro Tegid: adroddodd Cyngorydd Dilwyn Morgan fod y gwaith gosod llinellau melyn dwbl wedi ei wneud.

- ix. Rhwystrau ar y pafin ar y Stryd Fawr: mae'r Swyddog Gorfodaeth yn parhau i gadw llygad ar y broblem.
- x. Cynnal a chadw'r Domen: derbyniodd y Clerc adroddiad fod y cynlluniau mewn llaw gan Gyngor Gwynedd i wneud y gwaith.
- xi. Hyfforddiant ar 25 Tachwedd ar ddatganoli gwasanaethau: dewiswyd Dilwyn Morgan, Dorothi Evans, Alun Price ac Eluned Jones i gynrychioli'r Cyngor.

7. Adroddiad y cynrychiolwyr o gyfarfod ar drafndiaeth gymunedol yn Nhanybwllch:

adroddwyd ar y grant sy'n rhoi cyfle i greu grwpiau ym Meirionnydd i hybu cynlluniau trafndiaeth gymunedol. Cytunwyd mai da fyddai hyn gan fod teithio mewn i'r dref o'r cymunedau gwledig yn gallu bod yn broblemus, a bod teithio at glinigau ac i ymweld ag Ysbyty yn faich cynyddol. Cytunwyd gyda'r egwyddor o drafndiaeth gymunedol (heb amharu ar fusnesau lleol) a chytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn ystyried mynegi diddordeb yn y cyfle hwn. **GWEITHREDU: CLERC**

8. Materion y Cynghorydd Sir: Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ar y cyfarfod cyhoeddus "Her Gwynedd" a gynhaliwyd ar 3/11/14 yn Ysgol y Berwyn gyda chynrychiolwyr o Gyngor Tref Y Bala hefyd yn bresennol. Trafodwyd y gwasanaethau sy'n hanfodol bwysig i'w diogelu; bydd cyfarfod pellach yn y flwyddyn newydd pryd y gofynnir i drigolion ddewis pa wasanaethau y dymunant eu cadw a pha doriadau y bydd angen eu gwneud.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan dorch ar gyfer Sul y Cofio a chytunodd y Maer a'r Dirprwy Faer i osod torchau ar ran Cyngor Tref Y Bala. Diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ei rodd ac am ei waith.

9. Y Sinema: Adroddwyd ar gyfarfod rhwng Swyddogion o Gyngor Gwynedd a chynrychiolwyr o'r cyfarfod cyhoeddus yng nghynt yn y dydd, a chytunwyd gyda'r bwriad o geisio cadw'r gwasanaeth sinema a digwyddiadau achlysurol yn Neuadd Buddug hyd nes y daw gwybodaeth gadarn am gynlluniau'r ysgol gydol oes.

10. Materion lleol y Cynghorwyr Tref

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am gais cae chwarae **Parc Heol y Castell** am nawdd gan ITV Cymru.
- ii. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer Cinio Nadolig. **GWEITHREDU: CLERC**
- iii. Trafodwyd y llwybr traddodiadol a adweinir fel Llwybr y Sgotwyr ar hyd lan yr afon tu ôl i Blaenddôl: mae nifer wedi mynegi pryderon am rwystrau ar ddau ben y llwybr a chytunodd y Clerc i dderbyn gwrthwynebiadau gan drigolion gyda'r bwriad o wneud cais i ychwanegu'r llwybr at y Map Swyddogol. Os oes gwybodaeth gan drigolion Y Bala o ddefnydd traddodiadol o'r llwybr hwn, ac os oes gwrthwynebiad i'w gau, dylid mynegi hyn wrth Glerc Cyngor Tref Y Bala, Canolfan Henblas, Y Bala. cynorybala@outlook.com (Dalier sylw nad yw Llwybr y Sgotwyr yn cynnwys y cae tu ôl i'r Filfeddygfa.) **GWEITHREDU: CLERC**
- iv. Trafodwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol rhai tenantiaid ym Mlaenddol sy'n achosi pryder i gymdogion. Cytunwyd i alw Cyfarfod Brys gyda'r Heddlu a Chartrefi

Cymunedol Gwynedd i fynegi anfodlonrwydd gyda'r sefyllfa bresennol.

GWEITHREDU: CLERC

- v. Tynnwyd sylw at dwyllwyr sydd yn ceisio cael pobl i ddatgelu eu manylion Banc. Cynghorir pobl i beidio a rhoi manylion personol dros y ffôn.
- vi. Diolchwyd am y gwaith cymen o lanhau cwteri a wnaethpwyd yn ddiweddar gan staff Cyngor Gwynedd. **GWEITHREDU: Cyngorydd Dilwyn Morgan**

11. Materion Cyllid

Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chytunwyd i dalu anfonebau'r mis.

12. Gohebiaeth

Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd neges am gynnydd y Bil Cynllunio wrth iddo symud drwy broses ddeddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Manylion ar <http://wales.gov.uk/topics/planning/legislation/planningbill-old/planning-bill-news/?lang=cy>

Derbyniwyd gwybodaeth am "Arolwg canfod moch daear marw" a'r profion TB ar foch daear. Y rhif i'w ffonio i ddweud am fochyn daear marw yw 0300 303 8268.

Cyngor Gwynedd: Rhoddwyd ystyriaeth i'r holiadur am niferoedd s'n cysgu ar y stryd.
GWEITHREDU: CLERC

Eraill

- i. Cytunodd y Maer ac Alun Price i gynrychioli'r Cyngor yng ngwasanaeth sefydlu'r Parchedig Elaine Atack. **GWEITHREDU: CLERC**
- ii. Nodwyd ymgynghoriad y gwasanaeth Tân.
- iii. Derbyniwyd bwletin Hydref Mantell Gwynedd.
- iv. Derbyniwyd llythyr yn cynnig difa plâu.

11. **Asedau'r Cyngor** - cytunwyd i archebu baner yn dangos arfbais Cyngor Tref Y Bala i'w gosod ar Y Domen. **GWEITHREDU: CLERC**

12. Partneriaeth Penllyn:

- i. Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a diolchwyd yn gynnes iawn am ddarparu Hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr Penllyn.
- ii. Cytunwyd i ystyried y llwybrau sydd ar y Cytundeb ym mis Ionawr.
- iii. Ystyriwyd gwahodd cynrychiolwyr o Bartneriaeth Penllyn i annerch y Cyngor, ond cytunwyd bod Cynrychiolwyr Cyngor Y Bala yn rhoi gwybodaeth lawn yn fisol o weithgareddau'r Bartneriaeth.

Amser gorffen: 9.20pm